**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/0051/19

Siân Gwenllian AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Rhagfyr 2019

Annwyl Siân,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn eich cwestiwn i'r Trefnydd yn ystod y Datganiad Busnes ar 26 Tachwedd ynghylch meddygfa Llys Meddyg yn eich etholaeth. Gofynnwyd i mi gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol.

Mae datblygiad Penygroes yn un o'r cynlluniau sy'n cael blaenoriaeth yn strategaeth ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Anogir pob Bwrdd Iechyd i ddatblygu a chynnal strategaeth ystadau er mwyn llywio a blaenoriaethu ei anghenion buddsoddiadau cyfalaf. Ni chaiff y strategaethau hyn eu cymeradwyo na'u hardystio'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, ac felly y Bwrdd Iechyd sydd i wneud y penderfyniadau ar y blaenoriaethau perthnasol ar gyfer buddsoddiadau.

Rwy'n deall mai'r hyn sy'n cael ei gynnig yw bod y cynllun yn cynnwys gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol yn ogystal â gofal cymdeithasol, tai a'r trydydd sector. Mae cyllid cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig yn darparu tua £1m ar gyfer gwaith dichonoldeb. Mae dyraniad cyllid y Gronfa Gofal Integredig wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Caiff y cyllid ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o waith paratoadol gan gynnwys costau dylunio ac ymgynghori, a'i reoli gan Grŵp Cynefin, y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n rhedeg y prosiect. Mae Cyngor Sir Gwynedd hefyd wedi clustnodi £3m o gyllid cyfalaf ar gyfer y cynllun.

Fe'm cynghorwyd bod panel craffu'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael sicrwydd bod prosiect Penygroes yn rhan o gynlluniau buddsoddi strategol ehangach y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â sicrwydd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cydnabyddir y byddai angen sicrhau pecyn ariannu ehangach hirdymor ar gyfer y prosiect cyfan. Erbyn diwedd mis Mawrth 2020, y bwriad yw y bydd y bartneriaeth sy'n datblygu'r cynllun wedi penderfynu'n derfynol ar gost a maint y datblygiad.

Rwy'n deall nad yw diweddu'r contract meddygon teulu ym Meddygfa Llys Meddyg wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun arfaethedig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyda'r practis meddyg teulu o ganlyniad i faterion yn ymwneud â chontract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol, ac yn ceisio cael ateb cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau yn yr ardal.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services